**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/RE/0487/24

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

01 Mawrth 2024

Annwyl John,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, a oedd yn yn amlinellu 16 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Hoffem ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad. Amgaeeir ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn cyn y bleidlais ar y Gyllideb Derfynol ar 5 Mawrth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AM**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence .Rebecca Evans@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Gyllideb Ddrafft 2024-25

**Argymhelliad 1.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio’n agos gyda llywodraeth leol a datblygu cynllun clir i roi cymorth cynnar i unrhyw awdurdod lleol sy’n profi anawsterau ariannol penodol, gyda’r nod o atal yr angen i gyflwyno hysbysiad adran 114. |

**Ymateb: Derbyn**

Un o'r pethau cadarnhaol yng Nghymru yw'r berthynas waith yr ydym wedi'i meithrin rhwng y llywodraeth a'r awdurdodau lleol a rhwng yr awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn helpu i ymdopi mewn cyfnod anodd.

Trwy gyfarfodydd ag arweinwyr - yn unigol ac ar y cyd drwy CLlLC a'r is-grŵp cyllid - mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu'r sector a Chynghorau unigol. Mae swyddogion yn cyfarfod â chyfarwyddwyr cyllid yr awdurdodau lleol ac Archwilio Cymru yn rheolaidd ac mae ystod o wybodaeth ariannol yn cael ei chyhoeddi gan Archwilio Cymru fel rhan o'i waith parhaus ar gadernid ariannol yn ogystal â chyhoeddiadau ar wariant, cyllidebau a chronfeydd wrth gefn gan Lywodraeth Cymru. Mae rôl Archwilio Cymru wrth ddarparu un pwynt archwilio ar draws llywodraeth leol yn gryfder yng Nghymru, gan roi gwybodaeth a sicrwydd cyson ac awdurdodol i ni.

Mae'r Rhaglen Wella gwerth £800,000, drwy CLlLC, yn ariannu amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi'r awdurdodau lleol i wella a thrawsnewid darpariaeth gwasanaethau. Mae'r Rhaglen Wella yn ceisio cydbwyso anghenion gwella wedi'u targedu awdurdodau lleol unigol ag agenda strategol ehangach ar gyfer gwella ar y cyd. Mae gwelliannau corfforaethol yn cynnwys hybu democratiaeth fywiog, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau digidol. I gydnabod y sylfaen allweddol i wella arloesedd digidol, mae Llywodraeth Cymru'n darparu dros £2m drwy Brif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol i ddarparu arweinyddiaeth strategol i ysgogi gwelliant digidol a thrawsnewid o fewn y sector.

Mae cynllunio senario yn bwysig. Mae'n bwysig cydnabod hefyd nad yw datgan hysbysiad adran 114 yn datrys problemau ariannol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob pwrpas i'r Cyngor gymryd camau, i wneud penderfyniadau i gydbwyso ei lyfrau. Nid yw'n rhoi mynediad i gynghorau i ffrydiau cyllido newydd. Mae rhai opsiynau ar gael i ddarparu cymorth ariannol posibl. Mae'r rhain yn cynnwys cytundeb i gyfalafu refeniw a defnyddio derbyniadau cyfalaf, mwy o hyblygrwydd o ran cyllid grant yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael drwy'r Rhaglen Cymorth i Wella.

Cynhaliodd swyddogion weithdy rheolau Chatham House gyda CLILC a CIPFA ar ddiwedd mis Ionawr i archwilio sbardunau ar gyfer hysbysiadau Adran 114 posibl y gellid bwrw ymlaen â hwy.

**Argymhelliad 2.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i asesu effaith hirdymor cynnydd uchel yn y dreth gyngor ar aelwydydd ac os yw'n fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn hawlio'r cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael. Ar hyn o bryd mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cefnogi tua 261,000 o aelwydydd cymwys ledled Cymru, gan ddarparu gostyngiad yn eu bil treth gyngor ac, mewn llawer o achosion, ei leihau i sero. Dengys ein hadroddiad blynyddol diweddaraf fod tua 19% o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn cael cymorth drwy'r cynllun hwn. Er ei bod yn galonogol gweld y duedd ar i lawr flaenorol yn y llwyth achosion ar gyfer y cynllun yn cael ei gwrthdroi dros dro dros gyfnod y pandemig yn 2020 a 2021, mae nifer yr aelwydydd sy'n cael eu cefnogi yn gostwng unwaith eto.

Fel rhan o raglen diwygio'r dreth gyngor, mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei amcan polisi sef cefnogi'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf. Yn yr ymgynghoriad Cam 2 diweddaraf ar y diwygiadau cafwyd diweddariad ar gynnydd ar yr adolygiad. Mae'n ystyried sut y mae ein cynllun yn cymryd i ystyriaeth effaith Credyd Cynhwysol a newidiadau eraill i'r system les heb ei datganoli . Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chynghorau lleol a rhanddeiliaid eraill, megis Cyngor ar Bopeth Cymru, i benderfynu beth arall y gallwn ei wneud gyda'n gilydd i leihau'r rhwystrau o ran cael mynediad at y cynllun, i wella'r ffordd y mae'n cael ei weinyddu a'r nifer sy'n manteisio arno.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i ymgynghoriad Cam 1 ar ddiwygio'r dreth gyngor o blaid y cynigion i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu un cynllun cenedlaethol, a weinyddir yn lleol gan gynghorau lleol a lle mae'n bosibl gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, cafodd y newidiadau hyn eu cynnwys ym Mil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a osodwyd gerbron y Senedd ar 20 Tachwedd 2023. Mae'r adolygiad o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau ochr yn ochr â gwaith craffu'r Bil gan y Senedd, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i nodi camau penodol i fynd i'r afael â'r defnydd isel o'r cynllun a gwella'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r cynllun yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori yn fanylach maes o law.

**Siarter Budd-daliadau Cymru**

Cafodd Siarter Budd-daliadau Cymru ei lansio ar 22 Ionawr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip. [Siarter Budd-daliadau Cymru | GOV. CYMRU] Mae'r Siarter yn gyfres o ymrwymiadau sylfaenol ar gyfer cydweithio tuag at ddarparu Budd-daliadau Cymru sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae'n ganolog i'n gwaith i symleiddio system Budd-daliadau Cymru. Mae'n gymwys i'r holl grantiau a thaliadau i unigolion sy'n cael eu llywodraethu gan Lywodraeth Cymru, megis Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim, Grantiau Hanfodion Ysgolion ac yn y blaen.

Cafodd y Siarter ei llofnodi a'i dilysu gan arweinydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ar 23 Tachwedd, gan ddangos yr ymrwymiad ar y cyd i wella mynediad unigolion at gymorth ariannol.

Bydd cyflwyno'r Siarter yn sicrhau bod y nifer sy'n hawlio budd-daliadau yn weladwy ac yn dryloyw. Bydd hyn yn ysgogi gwelliannau i hygyrchedd y system gan alluogi rhagor o bobl yng Nghymru i fanteisio ar eu hawl i gael cymorth ariannol a sicrhau bod budd-daliadau Cymru yn cael eu gweinyddu mewn modd effeithlon a chyson ledled Cymru.

**Symleiddio Budd-daliadau Cymru**

Lansio'r Siarter yw'r cam cyntaf ar y daith i weithio tuag at system gydlynus o fudd-daliadau i Gymru – nid yw'r daith honno eto ar ben. Byddwn yn gweithio gyda grŵp llywio allanol i ddatblygu camau gweithredu ymarferol tuag at wireddu ein gweledigaeth o system a fydd yn golygu mai ond unwaith y bydd rhaid i berson adrodd ei hanes i gael mynediad at yr holl gymorth y mae ganddo hawl iddo.

Bydd gan y grŵp oruchwyliaeth strategol o'r gwaith i symleiddio system Budd-daliadau Cymru a bydd yn defnyddio ymrwymiadau'r Siarter i lunio cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys camau gweithredu wedi'u targedu. Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd arbenigwyr o bob rhan o'r llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r trydydd sector. Yn ddiweddar, cafodd Fran Targett, sydd â degawdau o brofiad yn y maes, ei phenodi yn Gadeirydd y Grŵp Llywio i fwrw ymlaen â'r gwaith ar fyrder. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 14 Chwefror.

**Argymhelliad 3.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi eglurydd syml sy'n nodi sut mae'r fformiwla gyllido yn cael ei chyfrifo. Dylid cyfleu hwn i lywodraeth leol a'i ddiweddaru'n flynyddol i egluro sut mae unrhyw newidiadau mewn setiau data wedi effeithio ar y fformiwla. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r llyfr gwyrdd, a gyhoeddir bob blwyddyn yn nodi'r cyfrifiadau manwl sy'n sail i'r fformiwla. Gellir ychwanegu canllaw ysgrifenedig syml at y ddogfen hon. Yn ogystal, mae'r tablau a gyhoeddwyd fel rhan o'r setliad yn rhoi manylion y dadansoddiad o ran mathau o gyllid a chyllid meysydd gwasanaeth. Gwelliant a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd ychwanegu Tabl 8 i nodi'r prif gydrannau sy'n achosi symudiadau yn y dyraniad yn ôl awdurdod, er enghraifft symudiadau poblogaeth, newidiadau yn y boblogaeth oedran ysgol, symudiadau mewn sylfeini trethi cymharol.

Mae CLlLC hefyd yn cynnal seminarau i aelodau' awdurdodau lleol ar y fformiwla.

**Argymhelliad 4.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yr Is-Grŵp Dosbarthu yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd er mwyn sicrhau tryloywder llwyr. |

**Ymateb: Derbyn**

Mae cofnodion yr Is-Grŵp Dosbarthu eisoes wedi'u cyhoeddi yn y ddolen isod. Caiff y cyhoeddiadau eu diweddaru cyn gynted â phosibl.

Is-grŵp Dosbarthu | GOV. CYMRU

Cyhoeddir cofnodion yr Is-grŵp Cyllid yn:

Is-grŵp Cyllid | GOV. CYMRU

**Argymhelliad 5.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth yr Alban ynghylch ei fformiwla gyllido. |

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i sefydlu cyfarfod gyda Llywodraeth yr Alban ar lefel swyddogol.

**Argymhelliad 6.**

| |
|---|
| Dylai'r Gweinidog bwyso ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch cyllid canlyniadol ar gyfer pensiynau athrawon a rhoi gwybod i'r Pwyllgor hwn am ganlyniad y trafodaethau hynny ac unrhyw effaith ar benderfyniadau cyllido y gallai hyn eu cael. |

**Ymateb**: **Derbyn**

Rwyf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am eglurder ynghylch cyllid canlyniadol ar gyfer pensiynau athrawon drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) a chyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys (CST).

Er bod y cyn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi dweud y caiff cyllid ei ddarparu ar gyfer y costau ychwanegol sy'n deillio o'r newid i'r gyfradd ddisgownt SCAPE o 1 Ebrill. Ceisiais gadarnhad ar frys y bydd y costau hyn yn cael eu talu'n llawn yn ystod y cyfarfod F:ISC ar 25 Ionawr, a'i fod yn gymwys i holl gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu.

Rwyf yn deall mai'r bwriad yw i Gymru cael cyfran Barnett o godiadau i gyllidebau adrannol perthnasol ac mae hynny i fod i ddigwydd adeg Prif Amcangyfrifon y DU. Gofynnais am eglurder o ran unrhyw gyllid cyn gynted â phosibl er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Cyn Cyllideb Gwanwyn y DU, ysgrifennais at Ganghellor y Trysorlys yn ailadrodd yr angen am eglurhad brys.

Byddaf yn hysbysu'r pwyllgor pan fydd gennym eglurder ar y mater hwn gan gynnwys unrhyw effeithiau cyllidol.

**Argymhelliad 7.**

| |
|---|
| Dylai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ymuno â thrafodaethau rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chynrychiolwyr llywodraeth leol i fynd i'r afael â thensiynau ynghylch ariannu a darparu pecynnau gofal i oedolion. |

**Ymateb**: **Derbyn**

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cwrdd ag arweinwyr drwy CLlLC a'r is-grŵp cyllid, lle y trafodir pwysau gofal cymdeithasol.  Gwahoddir y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfodydd hyn lle bo'n briodol.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â chydweithwyr mewn Llywodraeth Leol fel rhan o'u cyfarfodydd chwarterol â Rhwydwaith Aelodau Cabinet Gofal Cymdeithasol a Llesiant CLlLC. Yn yr un modd, gellir gwahodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i fynychu pan fo'r agenda'n briodol.

**Argymhelliad 8.**

| |
|---|
| Mae’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y cyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i’r rhesymau dros y sefyllfa annerbyniol lle mae’r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi arwain at ddyfarnu dim cyllid i awdurdodau lleol am y blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 cyfan. Dylai’r cyfrif hwn nodi’r rhesymau dros y methiant hwn a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd |

**Ymateb**: **Derbyn**

Roedd y cyllid cyfalaf o £3.69m a £3.19m ar gael i'r awdurdodau lleol yn 2022-23 a 2023-24 yn y drefn honno. Ni chafwyd ceisiadau am gyllid cyfalaf yn 2022-23. Ni chafwyd unrhyw geisiadau am gyllid wedyn tan ddiwedd 2023, ac erbyn hynny roedd y cyllid wedi'i gynnig fel rhan o'r ymarfer arbed costau yn ystod y flwyddyn. Cynigiwyd y cyllid cyfalaf oherwydd bod yr amser arweiniol ar gyfer prosiectau cyfalaf yn golygu ei fod yn annhebygol iawn o gael ei wario yn 2023-24. Er hynny, mae cyllid ar gael yn 2024-25 a bydd yr awdurdodau lleol yn cael eu hannog yn gryf i gyflwyno ceisiadau ochr yn ochr â'r broses Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) sy'n cael ei chwblhau.

**Argymhelliad 9.**

| |
|---|
| Dylai’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol weithio’n agos gyda’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau sy’n digwydd ar geisiadau am gyllid y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac i fonitro a yw ceisiadau addas yn cael eu cyflwyno. |

**Ymateb**: **Derbyn**

Bydd swyddogion yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar gynnydd yn erbyn ceisiadau am Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer 2024-25, gan gynnwys cyllid a ddyfarnwyd.